# Cenn@d

GORFFENNAF 16 2025 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 229

## Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llandudno

*'Dail y pren er iachâd y cenhedloedd' (Datguddiad 22:2)*

Dyna thema'r llywydd, y Parch. Aneurin Owen, Llansannan, eleni wrth i'w lywyddiaeth ddod i ben. Fe gafwyd rhagflas o'r fendith fawr yna sy'n cael ei haddo ar ddiwedd y Beibl wrth inni ddod ynghyd fel Eglwys a Chyfundeb yn Llandudno eleni ar gyfer ein Cymanfa Gyffredinol.



Gan ddechrau gyda gwasanaeth cymun a choffâd, fe gafwyd anerchiad gan y Parch. Robert Roberts, Morfa Nefyn, ar y pwysau a ddaliai Iesu ar y noson y cafodd ei fradychu. Band mawl o Eglwys Gloddaeth fu'n arwain y mawl wedyn yn y dathliad o genhadaeth a gweinidogaeth yr Eglwys a gafwyd ar nos Lun gyntaf y Gymanfa.



Bu Angharad Clwyd yn cyflwyno myfyrwyr y flwyddyn gap yng Ngholeg y Bala eleni wrth ddathlu cyfraniad y cynllun i fywydau pobl ifanc dros bron i 30 mlynedd.

Cyflwynodd Owen Griffiths fanylion am yr Ap Gweddi newydd fydd yn cael ei lansio'n fuan.

Holwyd Rebecca Lalbiaksangi a Thomas Williams am eu blaenoriaethau yn eu gwaith a'u gweinidogaeth newydd yn Nhrefaldwyn a Chaerdydd.





Patrick Thomas, gweithiwr yng nghapel Coffa William Williams yn Llanymddyfri, fu'n canu cân o fendith, a gyfansoddodd ei hun, ar ddiwedd ein dathliad.

Parhaodd y gweithgareddau dros swper wedyn wrth inni groesawu ymwelwyr o Eglwysi Cymru, Prydain a'r byd atom.



Yn gynnar ar ddechrau ein diwrnod llawn, ddydd Mawrth, bu'r Parch. Bryn Williams yn rhannu defosiwn ei wraig, Nia Williams, Caplan y Gymanfa, yn ei habsenoldeb. Daeth y darlleniad o Luc 5:17 – Hanes y claf o'r parlys yn cael ei iacháu.



Llongyfarchwyd Bryn hefyd yn y man wrth iddo gael ei godi i fod yn llywydd etholedig y Gymanfa i lywyddu am ddwy flynedd yn 2027.

Yn ystod y bore fe fu Glynis Owen, llywydd etholedig y Gymanfa, yn cyflwyno syniadau ac argymhellion ar ailstrwythuro. 'Bydd hwn yn benderfyniad a fydd yn rhyddhau pobl i gymryd mwy o ran yn ein gweithgareddau yn lleol,' meddai.

Cydnabuwyd bod newid yn anodd – fel unigolion ac yn arbennig fel eglwys, ac fe ofynnodd y Parch. Wayne Adams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweinidogaethau, am ganiatâd yr Eglwys i fynd ar y daith yma o ailstrwythuro efo'n gilydd.

Ar ddiwedd y bore bu'r Parch. Ddr Densil Morgan yn traddodi'r Ddarlith Hanes yn y Gymanfa eleni ar y testun:

'Beth sydd gan Emrys ap Iwan i'w ddweud wrth yr unfed ganrif ar hugain?'





Barn Saunders Lewis ar Emrys ap Iwan oedd mai ef oedd: 'Yr Ewropead Cymreig cyntaf ers yr 16eg ganrif'.

Wrth grynhoi ei ddiolch i Densil Morgan a'r olwg a gafwyd, nid ar genedlaetholwr a ddyrchafai ei genedligrwydd uwch popeth arall, ond ar Gristion o welodd werth ei genedl yn llaw Duw ac a gadwodd ei olwg ar Iesu Grist o flaen popeth arall, dyfynnodd Bryn Williams o englyn Robert ap Gwilym Ddu i'r Iawn: 'Dywedwch faint y duwdod, / Yr un faint yw'r Iawn i fod.'

Bu Marian Beech Hughes yn talu teyrnged i bawb sy'n gweithio i sicrhau llwyddiant ein cyhoeddiadau (*Cenn@d*, *Treasury*, *Cristion* a'r *Traethodydd*), yn olygyddion , dylunwyr, cyhoeddwyr, a chyda chefnogaeth barod staff y Swyddfa. Diolchwyd yn fawr i'r darllenwyr hefyd am eu cefnogaeth. Anogodd gyfraniadau o'r eglwysi i'r

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Gweithgarwch eglwysi ardal Wrecsam **Tudalen 3**

Gwobrau aur Eco Church **Tudalen 5**

O'r galon **Tudalen 8**

## *Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn Llandudno*

*(parhad o dudalen 1)*

cylchgronau. Dymunwyd yn dda i'r Parch. Jonathan Hodgins fydd yn cadeirio'r adran gyhoeddiadau ar ôl Marian.



Aethom ar daith i Drefeca wedyn. Bu Wayne Adams yn rhoi cyflwyniad am yr elusen newydd yno ac yn cydnabod y grant sylweddol i ddatblygu tŷ Howell Harris fydd yn galluogi'r gwaith pwysig hwnnw i ddigwydd yn fuan.

'Yr ydych chi o'r tu mewn yn gyfarwydd â stori Trefeca,' meddai. 'Y stori yw'r peth unigryw am Drefeca, ac yr ydym ni'n ymroddedig yno i fod yn adrodd y stori wrth genhedlaeth newydd. Yr ydym yn rhyfeddu at y ffordd mae'r Eglwys ryngwladol yn cymryd y fath ddiddordeb yn stori Trefeca.'

Adroddwyd hefyd am y gwaith sy'n parhau yng Ngholeg y Bala gan ddiolch am y cymorth sy'n cael ei estyn gan y Cyfundeb yn y cyfnod yma o geisio partneriaid newydd yn y gwaith.

Hedd Morgan fu'n cyflwyno gwaith y pwyllgor cenadaethau ac yn croesawu'r Parch. Anna Jane Evans i adrodd am ddyfodol gwaith eciwmenaidd yng Nghymru a'r byd. Cytunwyd i gadarnhau galwad Cyngor Eglwysi'r Byd a'r EAPPI am degwch a chyfiawnder ym Mhalesteina ac Israel yn rhinwedd ein haelodaeth a'n perthynas efo'r mudiadau hyn.





Llinos Roberts a Cheryl Williams fu'n rhannu am waith Cymorth Cristnogol ym Myanmar, Guatemala, Gaza a llu o wledydd eraill lle ceir anghyfiawnder, tlodi a ddioddefaint.

Hynny ar ôl nodi 80 mlynedd bodolaeth y mudiad eleni.

Adroddwyd bod traean o incwm Cymorth Cristnogol yn dod o roddion mewn ewyllysiau. Rhannwyd am y cynllun 'Ewyllys Da' a sut y gallwn gofio am y mudiad yn ein hewyllysiau.

'Mae pob rhodd yn gwneud gwahaniaeth ac yn cynnal gobaith'.

Yn Oedfa Ymadawol y Llywydd nos Fawrth, diolchodd Aneurin Owen am bob cefnogaeth a gafodd dros ei ddwy flynedd fel llywydd y Cyfundeb. Bu'r eglwys ym Mizoram yn rhan amlwg o'r oedfa wrth i lywydd y Synod yno a ffrindiau iddo ddarllen a gweddïo ar ddechrau'r oedfa.

Gyda'r thema o iachâd i'r cenhedloedd o ddail pren y bywyd, fe anogodd Aneurin bawb yn yr Eglwys gyfan i barhau i fod yn rhan o'r gwaith o ddwyn iachâd i'r cenhedloedd yn enw Iesu Grist.



Trosglwyddwyd llywyddiaeth y Gymanfa Gyffredinol i Glynis Owen, gweddïwyd drosti a diolchwyd yn daer i Dduw am Aneurin a'r nerth a'r iechyd a'r gras mae wedi eu cael i gyflawni ei swydd.

Ar ddiwrnod olaf y Gymanfa, dydd Mercher, bu adrodd gan Carys Davies ac Eirian Roberts am waith y chwiorydd yn cefnogi anghenion yn Lesotho ac amryw fannau eraill dramor ac yng Nghymru. Cafwyd diweddariadau yn ystod y bore ar godi arian at Apêl Manipur y Cyfundeb a chlywyd am gynllun hardd gan Adran y Chwiorydd i godi mwy o arian gyda'r hyn sy'n cyfateb i'r Casgliad Dyrnaid o Reis yn India.

Wrth roi sylw i'n hadeiladau, croesawyd Aimee Henderson o'r mudiad CADW i rannu efo ni am ddatblygu ein hadeiladau rhestredig. Bu Steve Wynne, cadeirydd yr Adran Adnoddau ac Eiddo, yn cyflwyno'r ymatebion a'r pwyntiau gweithredu gennym ar ôl y gynhadledd ar adeiladau, 'Beth yw ystyr y meini hyn?', ym mis Ebrill.



Bu Bronwen Morgan a Carys Moseley yn tynnu sylw at bwyntiau fu dan sylw'r Adran Eglwys a Chymdeithas eleni.



'Fy nhaith mewn cenhadu a gweddi' oedd testun y Ddarlith Davies wrth i'r Parch. Eleri Edwards, Manceinion, fyfyrio ar ei thaith bywyd yn y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd, y cyfleon a gafodd i fod yn rhan o genhadaeth Eglwys Iesu Grist ym Madagascar a'r dylanwadau a fu arni.



Cyn y gwasanaeth clo fe gafwyd cyfle i ddiolch i'r Parch. Tim Hodgins, gweinidog Eglwys Gloddaeth yn Llandudno, am ei baratoad a'i groeso cynnes ef a'r tîm dros dridiau'r Gymanfa. Bu'n braf gweld holl adrannau a llysoedd yr Eglwys yn cael eu dwyn ynghyd a chael gweld ein hunain yn rhan o'r Eglwys fawr fyd-eang a dathlu ein breintiau o gael bod yn rhan o'r gwaith o ddwyn 'iachâd i'r cenhedloedd'.

(Gol. HP-D)





# Gweithgarwch eglwysi ardal Wrecsam

Ers imi symud i'r ardal yn 1991 rwyf wedi rhyfeddu at y cydweithio a'r gweithgarwch amrywiol sy'n digwydd yn eglwysi ardal Wrecsam! Fy mhrofiad cyntaf o hyn oedd cael ymwneud â phrosiect i helpu'r digartref pan oeddwn yn Weithiwr Cenhadol gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ar y pryd roedd galw am loches ar gyfer y digartref a sefydlwyd un mewn cyn-gartref nyrsys ar Ffordd Caer (St John's).

Yn y blynyddoedd diwethaf bu fy ymwneud ag eglwysi Wrecsam yn wirfoddol ac fel cynrychiolydd yr eglwysi Cymraeg ar 'Cydweithio gyda Christ yn Wrecsam/Churches Together in Wrexham'. Drwy fy ymwneud â'r grŵp hwn cefais weld yr amrywiaeth o weithgareddau sydd yn y ddinas newydd hon a hoffwn roi blas o hynny i chi drwy'r erthygl hon. Ond cofiwch – dim ond crafu'r wyneb fydda i oherwydd mae'n amhosib sôn am bopeth!

**Baby Basics Wrecsam**
Bob blwyddyn, mae'r cynllun hwn yn dosbarthu cannoedd o eitemau hanfodol, o ddillad babanod i bethau ymolchi, i fenywod mewn amgylchiadau amrywiol a heriol sy'n disgwyl plentyn. Rhoddir yr eitemau hyn yn hael gan aelodau'r gymuned leol a'u didoli'n ofalus gan dîm ymroddedig o wirfoddolwyr. Wedi'i sefydlu yn 2021 gan Gristion lleol a'i heglwys, mae dros 275 o hamperi wedi'u creu sydd wedi'u pecynnu â gofal a chariad, gan adlewyrchu ymrwymiad yr elusen i werthfawrogi pob mam a phlentyn.

Baby basics

Mae Baby Basics Wrecsam yn gweithio'n agos gyda bydwragedd ac ymwelwyr iechyd, gan sicrhau bod y rhai sydd angen cymorth yn gallu cael mynediad hawdd ato. Mae'r sefydliad yn cefnogi grwpiau agored i niwed yn benodol, gan gynnwys mamau yn eu harddegau, ceiswyr lloches, a menywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig a masnachu mewn pobl. Mae'r gwasanaeth hanfodol hwn yn hollbwysig er mwyn lleddfu'r baich ariannol a ddaw yn sgil gofalu am faban newydd, gan ganiatáu i deuluoedd ganolbwyntio ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig: bondio a meithrin eu rhai bach.

**Bugeiliaid y Stryd**
Mae criw o wirfoddolwyr o eglwysi lleol yn mynd allan yng nghanol y ddinas ar nos Sadwrn ac yn cynorthwyo rhai sydd eisiau sgwrs neu help pan fyddant allan yn y clybiau nos a'r tafarnau. Maent yn cyfarfod i weddïo yn yr eglwys newydd sydd wedi ei sefydlu gan yr Eglwys yng Nghymru yn yr hen siop Burton. Maent ar ddyletswydd o 10pm tan 2am, ac yn cydweithio â'r gwasanaethau brys a'r heddlu ac yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Ar hyn o bryd maent yn edrych am fwy o wirfoddolwyr i ymuno â nhw.




**Banciau Bwyd Trussell Trust**
Rydym i gyd yn gwybod am yr angen am becynnau bwyd yn yr amser yma o gyni ariannol ac mae wyth lleoliad ar draws ardal Wrecsam a'r pentrefi cyfagos lle gall pobl fynd i dderbyn pecynnau bwyd. Rhai ohonynt yw Canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth yn Rhos-ddu, Church of the Nazarene yn Llai, a Chapel y Groes/ Ebeneser yn ardal Bodhyfryd ynghanol y ddinas (rhwng Asda a Tesco). Diolch ein bod yn medru defnyddio ein hadeiladau i gynorthwyo gwaith pwysig fel hyn sy'n ymateb i anghenion ein cymdeithas.

Wrexham foodbank
Banc Bwyd Wrecsam

**Caplaniaeth Carchar y Berwyn**
Pan oeddwn yn gweithio i Wasanaeth Llyfrgell Wrecsam cefais gyfle i ymweld â'r carchar yn y dyddiau cynnar, a'r llyfrgell a'r adran addysg yn benodol. Mae'r gaplaniaeth yn defnyddio rhan o'r adran addysg ar gyfer eu cyfarfodydd ac mae'n galonogol clywed fod niferoedd uchel yn mynychu'r gwasanaethau ar y Sul a hefyd wedi bod yn dilyn cwrs Alpha ac wedi dod yn Gristnogion yn y carchar. Bob Nadolig mae cyfle i ni fel Cristnogion lleol gasglu sanau ar gyfer y carcharorion i'w dosbarthu gan y gaplaniaeth.

**Xplore goes to Church!**
Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng Canolfan Wyddoniaeth i Blant Xplore! ac Eglwys St Marc ym Mharc Caia. Maent wedi sicrhau arian drwy fudiad o'r enw Scientists in Congregations sydd wedi ei sefydlu i ddangos i arweinwyr Cristnogol sut y gallant ddefnyddio gwyddoniaeth i helpu eu cenhadaeth, ac ysbrydoli ffydd a gwyddoniaeth ym mywydau plant a phobl ifanc. Mae Canolfan Xplore! yn Stryt Caer gyferbyn â Tŷ Pawb a byddant yn cynnal sesiwn ym Mhabell yr Eglwysi yn ystod yr Eisteddfod.

**Canolfan Byddin yr Iachawdwriaeth, Rhos-ddu**
Mae'r ganolfan hon yn brysur iawn yn gwasanaethu'r gymuned. Mae'n cynnig lle i alw i mewn am gymorth ar gyfer y digartref, teuluoedd, ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

**Llanddysgwyr**
Cafodd Llanddysgwyr ei sefydlu ar lein yn ystod y cyfnod clo gan yr Eglwys Fethodistaidd, gan roi cyfle i rai sy'n dysgu Cymraeg ymarfer yr iaith ac addoli yr un pryd. Bu'n werthfawr iawn i lawer o siaradwyr newydd ac maent wedi bod yn trefnu gweithgareddau wyneb yn wyneb hefyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Agor y Llyfr**
Mae tri thîm Agor y Llyfr yn sir Wrecsam ac rydym yn ymhyfrydu fod POB ysgol cyfrwng Cymraeg yn cael ymweliad gan Agor y Llyfr! Bydd yr ysgol ddiweddaraf i agor yn ardal Borras yn cael ymweliadau o fis Medi ymlaen. Mae dau dîm dan ofal Siwan Jones, Gweithiwr Plant ac Ieuenctid, ac un Wrecsam dan ofal criw o gapeli Cymraeg Wrecsam. Mae hefyd rai grwpiau Saesneg sy'n ymweld ag ysgolion Saesneg yr ardal.



*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## *Gweithgarwch eglwysi ardal Wrecsam*

*(parhad o dudalen 3)*



**Eglwys San Silyn (Eglwys y Plwyf), Wrecsam**
Mae'r eglwys yn denu ymwelwyr drwy'r flwyddyn ac yn cynnal pob math o weithgareddau, gan gynnwys nifer o gyngherddau cerddorol ac mae'n un o'r lleoliadau ar gyfer gŵyl Focus Wales. Bydd yr eglwys ar agor bob dydd o 1 tan 4 o'r gloch yn ystod wythnos yr Eisteddfod, a bydd cyfle i ddringo tŵr yr eglwys i fwynhau'r golygfeydd.



**Eglwys Hope Street (Eglwys yng Nghymru)**
Mae hon yn eglwys newydd a agorwyd yn ystod cyfnod y Covid ac yn brosiect cenhadol gan yr Eglwys yng Nghymru i ddenu pobl ieuanc a theuluoedd, ac yn llewyrchus iawn. Mae wedi ei lleoli yn yr hen siop Burton, bron iawn gyferbyn â San Silyn ac mae'n cynnwys caffi sydd ar agor i chi droi i mewn am baned a byrbryd.

**Cadeirlan y Santes Fair (Eglwys Gatholig), Stryt y Rhaglaw**
Mae hon yn eglwys brysur, gyda phobl o sawl cenedl yn mynychu'r gwasanaethau. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod bydd croeso cynnes i chi i'r Offeren Gymraeg wedi ei threfnu gan y Cylch Catholig am 6pm ar y nos Iau. Bydd lluniaeth i ddilyn.

**Capel y Groes/Ebeneser (rhwng Tesco ac Asda)**
Mae hwn wedi bod yn lle poblogaidd i gorau ymarfer wrth iddynt baratoi at yr Eisteddfod, a bydd rhagbrofion yn cael eu cynnal yno ar rai dyddiau yn ystod yr Eisteddfod. Gwelery manylion yn *Rhaglen y Dydd*. Mae'r Eglwys Bresbyteraidd a'r Annibynwyr yn addoli yma ar y Sul dan weinidogaeth y Parchedig Aled Lewis Evans ac yn cydweithio'n hapus. Defnyddir yr adeilad amlbwrpas drwy'r wythnos ar gyfer y Banc Bwyd, y Groes Goch a gwaith gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid, grwpiau trwm eu clyw, Merched y Wawr a chorau amrywiol. Maent hefyd yn cyflogi gweithiwr plant ac ieuenctid un diwrnod yr wythnos, sef Siwan Jones.



**Yr Eglwys Fethodistaidd – Capel Jerwsalem, Pen-y-maes Avenue**
Wedi cyfnod yn cyfarfod yng Nghapel y Groes/Ebeneser mae'r Tad Deiniol o'r Eglwys Uniongred yn cynnal gwasanaethau yma ar ddydd Sadwrn ar gyfer myfyrwyr a rhai sydd yn yr ardal o Wcráin. Maent yn gyfarfodydd poblogaidd iawn ac mae'n dda ein bod yn medru defnyddio ein hadeiladau i helpu yn y modd yma. Gweinidog Jerwsalem yw'r Parchedig Marc Morgan, a bydd ef a Margaret ei wraig yn gofalu am Babell yr Eglwysi yn yr Eisteddfod.

**Eglwys y Bedyddwyr, Pen-y-bryn, Wrecsam**
Mae'r gynulleidfa hon yn ddwyieithog bellach ac yn addoli yn y capel Efengylaidd, Borras, yn y prynhawn oherwydd problemau diogelwch gyda'r adeilad ym Mhen-y-bryn. Gweinidog yr eglwys yw'r Parchedig Rhun Murphy.

**Cydweithio gyda Christ yn Wrecsam/ Christians Together in Wrexham**
Rydym yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael o leiaf dri gwasanaeth undebol y flwyddyn: Wythnos Weddi am Undod Cristnogol, Cymorth Cristnogol ac un ym mis Tachwedd. Rydym hefyd wedi bod yn cynnal gorymdaith drwy ganol Wrecsam ar ddydd Gwener y Groglith, ac yn cael cyfle i adrodd stori'r Pasg a chanu emynau gyda Band Byddin yr Iachawdwriaeth yn arwain. Rydym hefyd wedi trefnu ambell ddigwyddiad, megis gwahodd cwmni theatr Gristnogol i ddod i berfformio yn Eglwys San Silyn. Yn ddiweddar cawsom ddrama am hanes Corrie Ten Boom, a chafwyd perfformiad o'r ddrama mewn ysgolion ac yng ngharchar y Berwyn.

Diolch i Dduw am ei ffyddlondeb ac am y nerth a'r awydd i gydweithio yn ardal Wrecsam. Gweddïwn y byddwch yn teimlo brwdfrydedd a chroeso'r eglwysi yn ystod yr Eisteddfod. Cofiwch ymweld â Phabell yr Eglwysi ar faes yr Eisteddfod, lle bydd croeso cynnes yn eich aros!

*Marian Lloyd Jones*


Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

**Chwilio am banad tra yn y Sioe yn Llanelwedd?**

**Bydd pabell yr Eglwysi yno i'ch croesawu - gyda gwaith plant, defosiwn dyddiol, stondin lyfrau ac arddangosfeydd.**

Byddwn ar Res D yn ôl ein harfer - rhif 413. Galwch i'n gweld am banad a chroeso.




CAFC RWAS

# Gwobrau aur Eco Church

Pleser o'r mwyaf yw cyhoeddi ein bod wedi cyrraedd chwe gwobr aur Eco Church yng Nghymru bellach! Rhoddwyd yr un gyntaf yn 2023 i Eglwys San Pedr, Llanbedr Dyffryn Clwyd. Ers hynny mae'r canlynol wedi cyrraedd y brig hefyd: Eglwys San Sadwrn, Henllan; Eglwys Dewi Sant, Casllwchwr, Abertawe; Eglwys Ddiwygiedig Unedig Beulah, Rhiwbeina, Caerdydd; Eglwys Unedig y Barri; a'r wythnos yma – Eglwys San Tyssil, Llandyssil, Trefaldwyn.

Mae dwy eglwys arall yn aros am asesiad, felly gobeithio y bydd mwy o newyddion da cyn bo hir! Llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd! I weld mwy am gynllun Eco Church ewch i: https://ecochurch.arocha.org.uk/







## Gair o gydymdeimlad

Gyda thristwch y clywsom am farw Gareth Edwards, yn dawel yng nghwmni ei deulu, fore Iau, 10 Gorffennaf, yn dilyn gwaeledd a ddioddefodd yn wrol. Dechreuodd ei weinidogaeth yn 1970 yn bugeilio Eglwysi Soar, Pontardawe; Siloh, Gwauncaegurwen; a Jerwsalem, Ystalyfera, cyn dychwelyd i'r gogledd ymhen chwe blynedd yn weinidog yng ngofalaeth y Tabernacl, Porthmadog, ac Ebeneser, Borth-y-gest. Oddi yno fe'i galwyd yn weinidog ar eglwysi Bethesda'r Wyddgrug a Soar, Nercwys, o 1982 hyd ddiwedd 1998. Wedi hynny, bu'n Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyfundeb cyn dychwelyd i'r weinidogaeth fugeiliol yng Nghapel y Porth, Porthmadog, a gofalaeth ehangach yn y man. Wedi ymddeol yn 2010, ymgartrefodd Margaret ac yntau yn Neganwy, lle cymerodd Gareth ofal hyd yn ddiweddar o Gapel Coffa'r Annibynwyr yng Nghyffordd Llandudno.

Roedd iddo le agos at galonnau llawer iawn o bobl lle bynnag y cafodd ei alw i fod ac roedd gan bawb air uchel amdano yn ei ofalaethau, yn Swyddfa'r Gymanfa ac am ei amser fel Llywydd y Gymanfa. Gallwn ddweud iddo fod yn ffrind ffyddlon ac yn ddiwyd a diarbed ym mhob gwaith a gweinidogaeth a chyfrifoldeb a ymddiriedwyd i'w ofal: 'da was, da a ffyddlon' (Mathew 25:23).

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Margaret, ei weddw, Gwenith ac Alun a'r teulu yn ehangach.

(Gol. HP-D)

## Yr Eglwys Fethodistaidd

### Rheolwr Dysgu a Datblygu (LDM) Cymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr a De-orllewin Lloegr

**Cyflog: £55,000 yn codi i £57,531**

**Gweithio o gartref**

**35 awr yr wythnos (Cytundeb oriau blynyddol)**

Os oes gennych angerdd i helpu i ddatblygu cenhadaeth eglwysi, cylchdeithiau a thaleithiau Methodistaidd, yna byddem yn hoffi clywed gennych. Fel gweithiwr proffesiynol profiadol â gyrfa dda mewn dysgu a datblygu, yn ogystal â rheoli, byddwch yn rhan o'r Rhwydwaith Dysgu (RhD) o fewn y Tîm Gweinidogaethau a Dysgu ac yn rhan o Dîm Cyfundebol yr Eglwys Fethodistaidd.

Mae cyfrifoldebau'r Rheolwr Dysgu a Datblygu (LDM) yn cynnwys:

Arweinyddiaeth strategol a rhannu arweinyddiaeth y RhD

Arwain a rheoli'r Swyddogion Dysgu a Datblygu (LDO), gan gydbwyso anghenion a disgwyliadau'r ordeiniedig a'r lleyg

Datblygu, gweithredu ac adolygu, ynghyd â'r Rheolwyr Dysgu a Datblygu (LDM) eraill a'r Cyfarwyddwr Dysgu Gweinidogol, gynllun gwaith strategol y RhD

Creu a chynnal perthynas dda ar draws y Tîm Cyfundebol a gyda phobl a chymunedau ledled yr eglwys a thu hwnt

Annog rhannu doniau a phrofiadau unigol ar draws nifer o dimau a chyfranddeiliaid

Teithio (gan gynnwys aros i ffwrdd dros nos), gwaith penwythnos a gyda'r nos

Rydym yn chwilio am rywun sydd:

- â phrofiad cadarn o gydlynu a rheoli tîm o staff a gwirfoddolwyr ar wasgar
- â phrofiad sylweddol ac angerdd am ddysgu a datblygu ag ymrwymiad cryf i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth
- â hanes profedig o gwrdd â therfynau amser o fewn llwyth gwaith cymhleth ac amrywiol

Bydd gwybodaeth o'r Gymraeg yn fantais werthfawr i'r rôl hon

Rydym yn cynnig cynllun pensiwn galwedigaethol hael, lle bydd yr Eglwys Fethodistaidd yn talu dwywaith cyfraniad y gweithiwr hyd at uchafswm o 16% cyfraniad cyflogwr.

Dyddiad cau: 23:59 ar 21/07/2025

Ceir rhagor o wybodaeth am y rôl ar http://www.methodist.org.uk/jobopportunities/

# Credo Nicea

**Credwn**

Dros y chwe wythnos nesaf bydd gennym gyfres o astudiaethau'n seiliedig ar Gredo Nicea, gyda myfyrdodau wedi eu paratoi gan gyfeillion ar draws y byd sy'n rhan o waith yr United Society Partners in the Gospel (USPG). Cyfieithwyd y sesiynau hyn i'r Gymraeg gan y Parch. Noel Davies, Abertawe, a diolch iddo am ei waith.

Daw'r dyfyniadau Beiblaidd o'r Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig (2004) a daw'r dyfyniadau o Gredo Nicea o'r fersiwn Cymraeg yn Llyfr Gweddi yr Eglwys yng Nghymru.

Dros y chwe wythnos nesaf, byddwn yn dilyn y themâu canlynol:

Sesiwn un – Cread Duw
Sesiwn dau – Ymgnawdoliad Iesu Grist
Sesiwn tri – Iachawdwriaeth y Groes
Sesiwn pedwar – Ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glân
Sesiwn pump – Yr Eglwys ac Undeb
Sesiwn chwech – Gobaith yr Atgyfodiad

Mae 2025 yn flwyddyn arwyddocaol wrth i ni ddynodi 1700 mlynedd ers y Cyngor Ecwmenaidd byd-eang cyntaf. Darparwyd yr astudiaethau hyn i'ch cymell, mewn partneriaeth â Christnogion eraill, i fyfyrio'n weddigar ar arwyddocâd Cyngor Nicea ac effaith ffurfiannol ei etifeddiaeth ar y ffydd Gristnogol.

Yr Ymerawdwr Cystennin a gynullodd y Cyngor yn 325 OC, a chafodd ddylanwad dwfn ar athrawiaeth Gristnogol. Ond roedd yn foment hefyd pan fu i ffydd a grym ymerodraethol ddylanwadu ar ei gilydd mewn ffyrdd cymhleth. Er mai amcan Credo Nicea oedd uno'r Eglwys a sicrhau fod i natur ddwyfol Crist sylfaen gadarn, rhaid cydnabod cyd-destun hanesyddol yr ymdrech hon, sef fframwaith yr ymerodraeth Rufeinig.

Galwyd Cyngor Nicea i ddatrys yr anghydfod Ariaidd oedd ynglŷn â gwir natur Crist – a oedd yn wir Dduw AC yn wir ddyn? – ac i sefydlogi'r ymerodraeth drwy gydlyniad crefyddol. Cyfyd hyn gwestiynau pwysig am y modd y bu i rym ymerodraethol ddylanwadu ar y penderfyniadau a wnaeth y Cyngor. Roedd undeb yn nod gwleidyddol yn gymaint â nod diwinyddol. Er bod y credo wedi dwyn Cristnogion ynghyd o gwmpas credoau cyffredin, rhaid i ni fod yn ymwybodol o beryglon credu fod undeb ac unffurfiaeth yn gyfystyr. Pan mae ffydd a grym gwleidyddol yn mynd ynghlwm yn ei gilydd, mae perygl bob amser y bydd amrywiaeth yn cael ei atal yn enw trefn.

Wrth i ni goffáu pen-blwydd Cyngor Nicea, gadewch i ni feddwl a gweddïo am eglwys sy'n cofleidio undeb mewn amrywiaeth, ac yn cydnabod cyfoeth mynegiadau gwahanol o'r ffydd heb geisio unffurfiaeth. Mewn cyd-destun byd-eang, lle mae'r eglwys wedi ei defnyddio'n aml fel offeryn gwladychu a rheoli, fe'n gelwir i fyfyrio'n feirniadol ar ein hanes a cheisio ffurf ar undeb sy'n parchu amrywiaeth diwylliannol a diwinyddol. Gobeithiwn y bydd y canllaw astudio hwn yn ennyn myfyrdod, trafodaeth a gweddi gyda golwg ar eglwys sy'n gwrthod temtasiwn cydffurfiaeth ymerodrol ond yn hytrach yn ymgorffori neges Crist o gariad, cyfiawnder a chynhwysedd i'r greadigaeth gyfan.

*Y Parchg Ganon Ddr Peniel Rajkumar*
*Cyfarwyddwr Cenhadaeth Fyd-eang a Diwinyddiaeth Fyd-eang USPG*

BBC radio cymru


*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 20 Gorffennaf, am 7:30yb a 2:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Manon Ceridwen James, Abergele

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 20 Gorffennaf, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Aled Davies ac Owain Davies ar drothwy'r Sioe Fawr yn Llanelwedd




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i [www.gair.cymru](www.gair.cymru)

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
# Argyfwng Canol Oed?



Dwi ddim yn meddwl mod i erioed wedi chwerthin yn uchel cymaint wrth ddarllen llyfr! Dwi wedi bod yn darllen *Wythnos Ryfedd Gwilym Puw* gan Neil Rosser gyda chlwb darllen y Tabernacl, ac wedi mwynhau pob tudalen. Stori arolygwr (Gor)Estyn sy'n mynd trwy rhyw fath o 'mid-life crisis' yw hon, ac mae'n llawn digwyddiadau bythgofiadwy – o dorheulo ar ochr yr A470 i werthu BMW er mwyn prynu sgwter! Ond mae hefyd yn stori lawn trugaredd a doethineb, lle rydyn ni'n gweld Mr Puw yn ailasesu popeth yn ei fywyd er mwyn penderfynu beth sydd wir yn bwysig.

Yn ein cymdeithas seciwlar ni, mae'r 'mid-life crisis' yn destun sbort. Rydyn ni'n clywed, er enghraifft, straeon am bobl yn eu pumdegau sy'n gadael swydd bwysig yn Llundain ac yn mynd i fyw ar ynys bell heb drydan, ac yn chwerthin ychydig ar eu pennau nhw. Mae'n teimlo fel problem fodern! Ond mae 'argyfwng canol oed' wedi cael ei adnabod a'i ddisgrifio fel realiti ysbrydol am o leiaf ddwy fil o flynyddoedd.

Yn ôl y traddodiad myfyriol Cristnogol, mae'r bywyd ysbrydol ychydig fel gêm rygbi neu bêl-droed – mae dau hanner iddo. Yn yr hanner cyntaf, mae'r unigolyn yn ceisio boddhau ei anghenion dyfnaf am gariad a diogelwch drwy ddod o hyd i bartner, ennill arian, cael plant a phrynu tŷ. Maen nhw'n ceisio boddhau eu hanghenion am lawenydd drwy fynd ar wyliau neu yfed neu gymryd cyffuriau. Ac wrth gwrs mae llawer o'r pethau yma'n rhoi cariad, diogelwch a llawenydd i ni i ryw raddau. Ond mae stori Gwilym Puw yn debyg i stori mwyafrif y boblogaeth mewn gwledydd cymharol gyfoethog a heddychlon fel Cymru: rydyn ni'n cyrraedd canol oed ac yn darganfod, er bod partner, tŷ, a rhywfaint o arian gyda ni, dydyn ni'n dal ddim yn fodlon. Mae rhywbeth yn dal ar goll. A dyma beth sy'n arwain at yr argyfwng canol oed.


Ond dyma'r peth diddorol. Yn hytrach na gweld hyn fel testun sbort neu rywbeth negyddol, mae'r traddodiad myfyriol Cristnogol wedi gweld hyn fel rhodd oddi wrth Dduw. Yn y traddodiad hwn Duw sy'n achosi'r anfodlonrwydd yma er mwyn ein gorfodi i ailasesu popeth. Oherwydd, yn y pen draw, dim ond cariad Duw sy'n gallu bodloni ein dyheadau dyfnaf. Dim ond un ffordd i ddiogelwch sydd: colli popeth er mwyn ennill cariad cadarn a diamod Duw. 'A condition of complete simplicity costing no less than everything,' meddai T. S. Eliot.


Mae'n bwysig pwysleisio fy mod i'n siarad am brofiad pobl sy'n Gristnogion yn barod, ac nid pobl sy'n dod i ffydd yn eu pumdegau. I ni'r Cristnogion, mae'r 'argyfwng canol oed' yn alwad oddi wrth Dduw i ddyfnhau ein ffydd, i gael gwared o'r pethau sydd wedi dwyn ein calonnau a'n cariad, a throi yn ôl i Dduw â'n holl galon.

Dydy hynny ddim yn golygu, wrth gwrs, y dylen ni stopio caru ein partner a'n teulu, neu adael ein swydd a gwerthu ein tŷ, a mynd i fyw mewn pabell neu leiandy! Cwestiwn o flaenoriaethau yw hwn: 'lle mae dy drysor, yno hefyd y bydd dy galon', meddai Iesu. Dwi'n hoff iawn o stori Awstin Sant i'n helpu ni i ddeall hynny. Dychmygwch, meddai Awstin, eich bod chi wedi teithio i wlad bell, a nawr yn edrych ymlaen at fynd adref. Rydych chi'n teithio adref ar long hyfryd, llong mor gyffyrddus fel nad ydych chi'n fodlon gadael y llong pan fydd hi'n cyrraedd porthladd eich dinas chi. Fyddai hynny ddim yn gwneud synnwyr, meddai Awstin, achos er mor hyfryd yw'r llong, ei phwrpas hi yw eich cludo chi adref. Ac yn yr un ffordd, pwrpas ein bywyd ni yw ein cludo'n agosach at Dduw. A phwrpas yr argyfwng canol oed yw ein hatgoffa o hynny!

I ni yn y Gorllewin sy'n osgoi siarad am farwolaeth, efallai y bydd y frawddeg nesaf yn peri ofn. Ond mae'n bwysig hefyd nodi bod yr argyfwng canol oed yn ein paratoi ar gyfer ein marwolaeth. Sdim ots faint o arian a thai gogoneddus a pharch ac enw da sydd gennym – bydd yn rhaid i ni adael popeth pan fydd Duw yn ein galw ni adref, i adael y llong a mynd adref i fwynhau ei gofleidio tragwyddol mewn bywyd cyflawn yr ochr arall i'r bedd. Dydw i ddim yn siŵr sut byddai Gwilym Puw yn teimlo am y syniad hwn, ond mae'n wir beth bynnag! 'Os nad yw'r gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear ac yn marw, y mae'n aros ar ei ben ei hun; ond os yw'n marw, y mae'n dwyn llawer o ffrwyth. Y mae'r sawl sy'n caru ei einioes yn ei cholli; a'r sawl sy'n casáu ei einioes yn y byd hwn, bydd yn ei chadw i fywyd tragwyddol.'

Felly, os ydych chi'n cael argyfwng canol oed – ystyriwch y posibilrwydd bod Duw yn eich galw chi i berthynas ddyfnach o gariad gyda fe!



# O'r galon

## 'Ystyriwch amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth'

'Felly, gyfeillion annwyl, gwnewch eich gorau, wrth ddisgwyl am y pethau hyn, i fod yn ddi-nam a di-fai yng ngolwg Duw, ac i'ch cael mewn tangnefedd. Ystyriwch amynedd ein Harglwydd yn iachawdwriaeth, yn union fel yr ysgrifennodd ein brawd annwyl, Paul, atoch yn ôl y ddoethineb a roddwyd iddo ef.' (2 Pedr 3:14–15)

Wrth fyfyrio ar ffrwyth yr Ysbryd rydym wedi ystyried cariad, llawenydd a thangnefedd, a'r tri hyn yn rhinweddau dymunol i'w profi er yn heriol i'w meithrin. Ond beth am y nesaf a pha gyfieithiad Cymraeg sy'n cyfleu orau yr hyn y mae'r Ysbryd am ei weithio ynom? Ai 'hirymaros' (BWM), 'goddefgarwch' (BCND) ynteu 'amynedd' (BNET)? Yr ateb byr yw fod ganddynt oll rhywbeth i'w gynnig i'r darlun.

**Ffrwyth yn ei dymer**

Wrth gloi'r tro diwethaf, dywedais fod 'edifeirwch yn arwain at lawenydd a thangnefedd', gan ofyn, 'Tybed beth sydd a wnelo hyn â goddefgarwch?' Does ond rhaid meddwl am funud peth mor wahanol yw amynedd (neu oddefgarwch /hirymaros) pan fo cariad, llawenydd a thangnefedd yn amlwg ynom, o'i gymharu â'u habsenoldeb. Maent yn dylanwadu'n fawr ar ba dymer yr ydym ynddo ac yn uniongyrchol ar ein gallu i ymatal rhag mynegi'r ymateb y carem ei roi!

A thrwy newid mymryn ar ystyr y dywediad 'ffrwyth yn ei dymer', cawn allwedd i ddeall beth yw'r rhinwedd mae'r Ysbryd am i ni ei amlygu. Ac, wrth gwrs, rwyf am i ni feddwl am ystyr ehangach tymer na thymer ddrwg a'i golli!

**Makrothumia**

Mae dwy elfen i'r gair cyfansawdd Groeg y mae Paul yn ei ddefnyddio:
i) *macro* sy'n golygu 'hir', 'hyd', boed mewn gofod neu amser
ii) *thumia* – gair creiddiol ac iddo sawl ystyr. Dyma sydd gan geiriadur Groeg Liddell & Scott i'w ddweud amdano: 'soul, spirit, as the principle of life, feeling and thought, esp of strong feeling and passion'. A dyma arweiniodd i mi feddwl fod 'tymer' yn air da i'w gyfleu.

A dyma beth ddywed geiriadur Louw a Nidia am y gair cyfansawdd *makrothumia*: 'a state of emotional calm in the face of provocation or misfortune and without complaint or irritation — "patience" … In a number of languages "patience" is expressed idiomatically, for example, "to remain seated in one's heart" or "to keep one's heart from jumping" or "to have a waiting heart".'

Gwelwn felly pa mor anodd yw ei gyfieithu a bod y tri fersiwn Cymraeg yn cyfoethogi ein deall, yn hytrach na chystadlu am gywirdeb.

**Arhoswch ynof fi**

'Arhoswch ynof fi, a minnau ynoch chwi. Ni all y gangen ddwyn ffrwyth ohoni ei hun, heb iddi aros yn y winwydden; ac felly'n union ni allwch chwithau heb i chwi aros ynof fi. Myfi yw'r winwydden; chwi yw'r canghennau. Y mae'r sawl sydd yn aros ynof fi, a minnau ynddo yntau, yn dwyn llawer o ffrwyth, oherwydd ar wahân i mi ni allwch wneud dim.' (Ioan 15:4–5)

Mae'r cyflwr ysbryd ac enaid mae Paul yn cyfeirio ato yn debyg iawn i'r hyn y mae Iesu yn dysgu ei ddisgyblion i'w wneud cyn iddo fynd i'r groes. Eto, mae Paul yn ysgrifennu amdano at y Rhufeiniaid ym mhennod 8 fel bod yng Nghrist a byw ar wastad yr Ysbryd (8:1–10).

Pan oeddwn yn blentyn yn yr ysgol, roeddem wrth ein boddau'n chwarae 'tick off ground'. Byddem yn rhedeg o gwmpas y buarth yn ceisio osgoi cael ein dal, gan neidio i sefyll ar garreg neu ris oedd yn fan diogel. Cyn belled â mod i'n aros ar y man diogel, nid oedd modd fy nal. Wrth gwrs, yr hwyl fel plentyn oedd y rhedeg a'r her o beidio cael fy nal. Ond mae yna rywbeth yn yr aros sy'n agor ffenestr ar y rhinwedd yma. Cyn belled â mod i'n aros yng Nghrist, neu, yn nhermau Galatiaid 5:22, mewn cariad, llawenydd a thangnefedd, yn amyneddgar, yn oddefgar ac yn hirymarhous, yna gwyn fy myd. Daw'r helbul wrth i mi roi lle i chwantau'r cnawd (Galatiaid 5:16–21) a gadael y man diogel.

Ond sut mae hyn yn edrych yn y galon a'n profiad Cristnogol? Wel, bydd raid i chi fod yn hirymarhous, yn oddefgar ac yn llawn amynedd tan y tro nesaf.

*Hywel Edwards*
*Rhydaman*

# Capel Hirwaun, Cwm Cynon

Casgliad o nifer o aelodau eglwysi ydyn ni yng Nghapel Hirwaun, Cwm Cynon. Daw rhai o Aberdâr, eraill o Hirwaun, rhai o Abercwmboi ac ychydig o Benderyn. Ry'n ni'n cynnal oedfa ddwywaith y mis, sef y Sul cyntaf a'r trydydd Sul. Mae croeso i unrhyw un i ymuno gyda ni wrth addoli. Mark a Nerys yw ysgrifenyddion y capel ac mae'r erthygl fach yn dilyn hynt a helynt eu taith i Batagonia yn ystod mis Mai.

**OEDFA ANGHYFFREDIN MARK A NERYS HYMPHRIES**

Oedfa anghyffredin oedd hi yn Neuadd y Pentref, Hirwaun, fore Sul, 15 Mehefin. Mark a Nerys Humphries oedd yn gyfrifol am yr oedfa, ac ymweliad y ddau gyda Theithiau Tango i Batagonia oedd testun y myfyrdod. Ymwelodd y ddau o Landâr â nifer o gapeli a beddau'r hen Gymry a mannau priodol eraill, yn ogystal â sawl ysgol Gymraeg. Profon nhw nifer o gigoedd gwahanol y wlad a blasu te a theisennau nifer o westai Cymreig yr ardal. Fe gawson ni bregeth fach, ac fe ganon ni emynau oedd yn gysylltiedig â'r Wladfa. Coronwyd yr oedfa gydag anthem Patagonia.

Digwyddiadur Capel Hirwaun:

20 Gorffennaf: Steve Barnes yn arwain yr addoliad yn Neuadd y Pentref, Hirwaun, am 11 y bore. Croeso cynnes i bawb. Darperir lluniaeth ysgafn wedi'r oedfa.

3 Awst: Oedfa gymun yn Neuadd y Pentref, Hirwaun, am 11 y bore. Croeso cynnes i bawb. Darperir lluniaeth ysgafn wedi'r oedfa.

*Gwyn Morgan*



Mark a Nerys Humphries ym Mhatagonia



Aelodau'r capel

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru